



Taith Gylchol Trefyclo a Norton



Trefyclo

Manylion y llwybr

Taith gerdded o Drefyclo ar hyd ffyrdd gwledig i Norton, gan ddychwelyd ar hyd darn gwych o Lwybr Clawdd Offa.

Pellter: 9.3 milltir / 15 km

Man cychwyn: Gorsaf drenau Trefyclo

Cyfeirnod grid y man cychwyn: SO 29057 72393

Disgrifiad what3words y man cychwyn: poteli.dynameg.hawster

Cychwyn


Dechreuwch yng ngorsaf reilffordd Trefyclo a dilynwch Station Road i'r dref. Trowch i'r chwith wrth gyffordd ar bwys y Knighton Hotel a dilynwch Broad Street. Dyma ffordd yr A4113 i Amwythig ac yn arwain heibio Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Trefyclo. Trowch i'r dde i fyny Farrington Lane, gan fynd heibio i ganolfan hamdden a thai. Cyn gynted ag y bydd enw'r ffordd yn newid i The Dingle, trowch i'r chwith ar hyd ffordd a bron

yn syth i'r dde i fyny llwybr sydd ag arwydd fel llwybr ceffyl cyhoeddus. Mae'r llwybr wedi'i gysgodi gan goed i ddechrau, cyn dringo i fan lle mae golygfeydd yn ôl i Drefyclo yn y dyffryn islaw.

Ymunwch ag isffordd a pharhau'n syth ymlaen wrth iddi ddringo. O boptu'r ffordd mae gwrychoedd uchel, heblaw ar bwys Farrington Cottage. Daliwch i ddringo a mynd heibio'r fynedfa i Llanwen Farm. Cadwch yn syth ymlaen ar ddiwedd y tarmac, gan ddilyn llwybr llydan ac amlwg i fyny'r allt, gyda golygfeydd cynyddol eang. Mae'r trac yn gwastatáu tua 395m (1,295 troedfedd) wrth ymyl planhigfa goedwig fechan ar Fryn Llan-wen, gan gyrraedd croestoriad o lwybrau. (Oddi ar y ffordd i'r dde mae arsyllfa, y Spaceguard Centre, sy'n tracio gwrthrychau ger y Ddaear. Gweler spaceguardcentre.com.)

Ewch drwy giât ar y groesffordd a dilynwch drac i lawr yr allt. Ar ddiwrnodau clir mae modd gweld y Mynydd Du (Mynwy) yn y pellter a chopu Ysgyryd Fawr. Mae gan

Llwybr Glyndŵr TAITH BYR Taith Gylchol Trefycho a Norton (A)



y trac rychau olwynion dwfn, yna ar ôl mynd trwy giât, mae'n disgyn yn fwy serth, yn aml wedi'i wisgo i gribau o greigwely noeth. Mae ffordd yn parhau o Meeting House Farm, gan godi ychydig cyn disgyn yr holl ffordd i gyffordd ger Greenway Farm. Trowch i'r dde wrth y gyffordd, gan gerdded yn syth ymlaen i bob pwrpas, ac yn y pen draw mae'r ffordd yn ymuno â ffordd y B4355. Trowch i'r chwith a'i dilyn i mewn i bentref Norton, gan gyrraedd hen Eglwys Sant Andreas, sydd bellach yn 'hyb cymunedol'.

Trowch i'r dde ar hyd Mynd Road. Wrth iddi adael y pentref, mae'n dringo fel ffordd raean, yna'n dringo'n fwy graddol fel ffordd darnac, gan fynd heibio i blanhigfa goedwig. Ewch heibio i ddau grid gwartheg ac yna cadwch i'r dde wrth gyffordd llwybrau graean, gan fynd heibio i Old Impton Farm. Ar ôl mynd heibio grid gwartheg arall, gadewch y trac wrth bostyn marcio ar y dde, dringwch lethr glaswelltog, ac ewch drwy giât o dan goeden ffawydd gopr. Trowch i'r dde i fyny trac graean, gwylwch am bostyn marcio arall a throwch i'r chwith i ddilyn llwybr glaswelltog trwy giât. Dringwch yn ymyl coedwig, yna ewch drwy giât a dringo i mewn i'r goedwig, sydd â rhai coed derw arbennig o gain.

Ewch drwy giât fawr i gae sydd heb llwybr sathredig, felly cerddwch yn syth ymlaen dros godiad. Edrychwch o'ch blaen i weld arwyddbost pedair ffordd ar gornel bellaf y cae. Mae arwydd i Norton yn syth yn ôl, gyda Llwybr Clawdd Offa wedi'i arwyddo i'r chwith am Dolley Green ac i'r dde am Ros-y-meirch. Yn syth ymlaen mae arwydd i Landdewi-yn-Hwytyn. Felly, trowch i'r dde i ddilyn Llwybr Clawdd Offa, gan nodi'r logo mes sy'n nodi'r llwybr a dringo'n hamddenol yn ymyl y cae. Pan gyrhaeddir arwyddbost arall, trowch i'r chwith drwy giât fechan a cherdded yn ymyl cae arall. Nid oes unrhyw beth i'w weld o'r clawdd ei hun, ond edrychwch o'ch blaen a sylwi ar giât i'r chwith o blanhigfa goedwig, ac yn sydyn iawn, datgelir Clawdd Offa fel arglawdd a ffos laswelltog amlwg ar Hawthorn Hill, rhyw 400m (1,310 troedfedd) uwchlaw lefel y môr.

Cerddwch yn y ffos, gan groesi trac yn ddiweddarach, yna ewch drwy giât fechan a cherdded ar ben y clawdd. Mae'n rhedeg yn ei flaen fel arglawdd heb ei drin gyda chaeau wedi'u trin ar y naill ochr a'r llall. Ewch drwy

giatiau bychain wrth ddilyn y clawdd i blanhigfa goedwig arall. Ewch trwy giât fechan i gerdded wrth ymyl y coed, gan adael trwy giât fechan arall i mewn i gae. Trowch i'r chwith fel y dangosir, drwy giât fechan arall, i fynd i mewn i ardal o lwyni eithin. Gallai marcwyr arwain trwy dryslwyni eithin, felly'r cynllun gorau yw dilyn y llwybr mwyaf poblogaidd drwy'r ardal nes cyrraedd trac. (Bydd obelïsg gwenithfaen i'w weld mewn cae cyfagos, i goffâu Syr Richard Green-Price, Aelod Seneddol sy'n cael y clod am ddod â rheilffyrdd i ganolbarth Cymru.)

Trowch i'r dde i ddilyn y trac, ond gwylwch am arwyddbost a throwch i'r chwith ar hyd llwybr, yna i'r dde wrth bostyn marcio, i gyrraedd ffordd y B4355, lle mae ychydig o goed ffawydd yn tyfu. Dilynwch arwyddbyst drwy giatiau bychain i groesi'r ffordd a pharhau ar hyd cwrs Clawdd Offa. Mae llinell o binwydd Albanaidd uchel ar yr arglawdd ac mae'n parhau i fod yn amlwg, mewn cyferbyniad â'r caeau wedi'u trin ar y naill ochr a'r llall. Ewch drwy giât fechan a cherdded ar hyd pen y clawdd, sy'n cynnwys coed a rhedyn. Mae disgyniad graddol yn

Llwybr Glyndŵr TAITH BYR Taith Gylchol Trefyclo a Norton (A)

arwain trwy fwy o gatiâu i ailymuno â ffordd y B4355. Trowch i'r dde i'w dilyn, ac mae'n debyg ei bod yn well aros ar y chwith, gan fod tro dall lle gallai traffig sy'n dod tuag atoch fod yn broblem.

Trowch i'r chwith ar gyffordd ffordd, gan ddilyn arwydd am Landdewi-yn-Hwytyn, yna trowch i'r dde wrth gyffordd arall gyda'r arwydd am Ros-y-meirch. Gwylwch allan ar y dde am giât fechan ac arwyddbost Llwybr Clawdd Offa uwchben, i basio drwy wrych uchel i mewn i gae. Cerddwch wrth ymyl llinell o goed llarwydd a dilynwch y llwybr o gae i gae trwy gatiâu bach. Yn ddiweddarach, mae ffos ddofn i'r dde, ond mae Clawdd Offa wedi'i guddio gan goed. Fodd bynnag, wrth gerdded yn syth ymlaen, datgelir yr arglawdd o bryd i'w gilydd lle bynnag y mae bylchau yn y coed. Dilynwch y llwybr yn syth ymlaen ac i fyny'r allt. Tuag at y brig, trowch i'r dde drwy giât, gan groesi i ochr arall y clawdd i barhau, er bod yr arglawdd yn llawer llai o ran maint erbyn hyn.

Mae'r llwybr yn rhedeg yn rhwydd o gae i gae trwy gatiâu bach am tua 330m (1,080 troedfedd), yna'n disgyn yn raddol nes ei fod yn rhedeg islaw cwrs golff yn Ffridd. Dilynwch y llwybr yn serth i lawr yr allt o dan y brigau o goed sy'n crogi drosodd mewn coetir cyfagos. Ewch drwy giât fechan fel y'i nodir a pharhewch yn serth i lawr drwy'r coed. Croeswch ffordd gul a pharhau i lawr y llwybr, gan ddod allan wrth rai garejys cloi ar gyrion Trefyclo. Cerddwch i lawr i brif ffordd yr A488 a dilynwch yr arwydd ar ei thraws. Cerddwch i lawr Larkey Lane i gyrraedd canol y dref ger Knighton Hotel. Gallwch naill ai archwilio'r dref neu ddilyn Station Road yn ôl i'r orsaf drenau.

Os ydych yn crwydro Trefyclo, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn Broad Street hyd at dŵr cloc anferthol, yna ewch yn syth ymlaen ar hyd West Street i gyrraedd Canolfan Clawdd Offa. Mae hon yn cynnig llawer o wybodaeth ddiddorol am Glawdd Offa a Llwybr Clawdd Offa. Gwiriwch amseroedd agor yn offasdyke.org.uk/offas-dyke-association/offas-dyke-centre

Parcio: Parcio cyfyngedig yng ngorsaf drenau Trefyclo a Chanolfan Clawdd Offa, gyda mwy o leoedd yn Larkey Lane a Bowling Green Lane.

Bysiau: Mae gwasanaethau bws yn cysylltu Trefyclo a Cheintun, ac eithrio dydd Sul.

Trenau: Mae trenau Rheilffordd Calon Cymru dyddiol yn gwasanaethu Trefyclo o Amwythig a Machynlleth.

